## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Y prif newidiadau yw—

(1) diwygiadau i'r Atodlen sy'n rhestru'r materion y mae rhaid i'r awdurdod lleol ymdrin â hwy yn ei adroddiad ar gyfer y llys at ddibenion adran 14A(8)(b) o Ddeddf Plant 1989;

(2) darpariaeth o dan adran 14F (gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig) i ragnodi amgylchiadau y mae adran 14F yn gymwys odanynt i awdurdod lleol mewn cysylltiad â phersonau sydd y tu allan i ardal yr awdurdod lleol hwnnw;

(3) darpariaeth i'r awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig i bersonau sydd y tu allan i ardal ei awdurdod lleol—

(a) adolygu'r gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig a ddarperir i'r person hwnnw;

(b) hysbysu'r awdurdod lleol y mae'r person hwnnw yn byw ynddo am unrhyw angen parhaus am wasanaethau cymorth; ac

(c) atgyfeirio'r person hwnnw i wasanaethau lleol perthnasol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.